# Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru

## Digwyddiadur Y Llywydd **(Rhif 5 – Medi – Rhagfyr 2018)**

**Medi 25.** Yn bresennol yn **Seminar a Chinio Rhyng-ffydd 2018** yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd a drefnwyd gan Gyngor Mwslimiaid Cymru. Y prif siaradwr oedd Yr Hybarch Feistr Chin Kung, sef Mynach enwog o ysgol tir Pur Bwdhaeth Mahayana. Gyda tua 500 yn bresennol, roedd yr holl gyflwyniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg ac roedd cynrychiolwyr o bob ffydd yn mynychu'r hyn a oedd yn noson gofiadwy. Cafwyd hefyd gyflwyniadau a rhoddion i sawl unigolyn; gan gynnwys Carwyn Jones, y Prif Weinidog, am eu cyfraniad i wahanol agweddau ar fywyd cymunedol yng Nghymru.

**Hyd 4.** Cyflwyno **anerchiad** am waith CERhC i Henaduriaeth Morgannwg-Llundain a gynhaliwyd ym Mhort Talbot.


**Hyd 10.** Mynychu lansiad ***"Dock of the Bay"*** yng Ngwesty'r Exchange, a oedd yn dathlu lansio cyfres bedair rhan ar gyfer ITV Cymru ar hanes a diwylliannau amrywiol Bae Caerdydd a chymunedau ardal y dociau.

**Hyd 29.** Wedi mynychu digwyddiad rhyng-ffydd ***"Invest in Peace"/ Adeiladu Pontydd ,*** dan nawdd Bwrdd Dirprwyon Iddewon Prydain a CTBI (Eglwysi ynghyd ym Mhrydain), wedi ei drefnu gan Eglwys Unedig Dewi Sant Pontypridd a Synagog Ddiwygiedig Caerdydd. Y Synagog yn rhwydd lawn gyda chyflwyniadau hynod o effeithiol gan ddau wr ifanc y naill yn Balesteiniad a'r llall yn Israeli.

**Tach 5.** Mynychu **Fforwm Cymunedau Ffydd** Llywodraeth Cymru dan Gadeiryddiaeth Y Prif Weinidog. Cafwyd cyflwyniadau a thrafodaethau ar bump o faterion: 1. Diweddariad ar Addysg Grefyddol yn y Cwricwilwm. 2 Nodi digwyddiadau Wythnos Rhyng Ffydd. 3. Hawliau Dynol. 4. Cynllun Cenedl Noddfa ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches. 5. Prosiectau cronfa drosiannol yr Undeb Ewropeaidd - 3 i gychwyn yn Ebrill.

**Tach 7.** Mynychu cyfarfod hynod o luosog ***Grŵp Trawsbleidiol ar Ffydd*** yn Y Senedd. Y pwnc oedd "Islam ac eithafiaeth". Y siaradwr gwadd oedd Dr Saleem Kidwai, OBE a bwysleisiodd gyda llawer o gyfeiriadau at y Quran fod Islam ar gyfer cymuned gymhedrol. Dangosodd sut yr oedd Islam yn cael ei gamddeall a bod llawer yn ganlyniad i ragfarn ac anwybodaeth ar y cyfryngau. Cafwyd trafodaeth ddeallus a defnyddiol yn dilyn hynny.

**Tach 11.** Mynychu a chyflwyno gweddi yng **Ngwasanaeth Cenedlaethol o ddiolchgarwch – y Cadoediad 100**, a ddarlledwyd o Eglwys Gadeiriol Llandâf ar BBC1 ac S4C.



**Tach 16.** Cyfarfod gyda **Llywodraeth Cymru** ynghyd â chynrychiolwyr eraill o Gymunedau Ffydd i dderbyn diweddariad ac i ymateb i'r ddogfenaeth ar Addysg Grefyddol yn y cwricwlwm newydd. Bydd y dogfennau terfynol ar gael ym mis Ebrill gyda chyfnod ymgynghori llawn. Mae'n hanfodol bwysig bod **yr HOLL enwadau** yn ogystal ag eglwysi unigol yn ymateb i'r ddogfen honno pan gaiff ei chyhoeddi. Mae dyfodol natur Addysg Grefyddol yn dibynnu ar hynny'n digwydd. Rhaid i ni fod yn effro i ddylanwad a gofynion sylweddol y rhai " nad ydynt yn grefyddol".

**Tach 23. Cyfarfod o'r Cyngor(CERC)** Nid yn unig roedd presenoldeb da gan yr Aelodau ond ychwanegwyd at hyn yn sylweddol yn sesiwn y bore gan swyddogion enwadol a darlithwyr coleg oedd â chyfrifoldeb am **Addysg a Hyfforddiant Diwinyddol**. Arweiniwyd y sesiwn yn fwyaf medrus gan Dr Catrin Haf Williams, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Cafwyd trafodaeth fanwl a thrwyadl gyda phawb yn cyfrannu'n rhydd. Yn amlwg mae ewyllys i gydweithio a chyd drefnu ymysg yr Enwadau. Roedd amryw o awgrymiadau ymarferol. **Cytunwyd** y byddai Y Parch Bryn Williams(EBC) yn ymgynull yr unigolion allweddol o'r Enwadau ddechrau 2019 ar ôl iddo ymgynghori ag Athrofa Padarn Sant. **Cytunwyd** hefyd y byddai'n werthfawr ail sefydlu y 'Bwrdd Dilysu Ecwmenaidd' a mynegodd Y Llywydd y byddai yn sôn am hyn wrth Archesgob Yr Eglwys yng Nghymru y tro nesaf y byddai yn ei gyfarfod. Nodwyd yr angen am ddiwygio y **ddogfen "Gweinidogaeth Fro",** a gynhyrchwyd yn 2000, a bod fersiwn wedi ei chynhyrchu gan dri o'r Ysgrifenyddion Cyffredinol yn 2016 ond nad oedd wedi ei chyhoeddi. **Cytunodd** Peredur Owen Griffiths yn ei rôl fel Hwylusydd Ffydd, Trefn a Thystiolaeth CYTUN i gydlynu y gwaith yma a chynhyrchu dogfen ddwyieithog mewn cyd weithrediad â'r grwpiau perthnasol. Mynegwyd llawenydd ar y cyd weithrediad gyda CYTUN ac am y ddarpariaeth o **we fan newydd** ble y bydd gwybodaeth am CERC yn amlwg ac yn llawer haws i'w ganfod. Derbyniwyd **Adroddiad Y Llywydd** a diolchwyd am ei waith yn cynrychioli CERC. Yn yr un modd gwerthfawrogwyd **Bwletinau CYTUN** a gwaith manwl a chyson Gethin Rhys. Cafwyd Adroddiad ysgrifenedig am **ddatblygiadau Addysg** gan Vaughan Salisbury gan adrodd am y cynadleddau fu yn yr Hydref a nodwyd y bydd angen amser y tro nesaf i drafod cynlluniau terfynol ar gyfer y Cwricwlwm newydd ac Addysg Grefyddol yn benodol. Nodwyd bod **Estyn** wedi cyhoeddi ei adroddiad: Addysg Grefyddol yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 a'i fod yn gadarnhaol yn arbennig ar gyfnod allweddol 2. Trafodwyd enwebiadau ar gyfer **CYSAGau** a'r pwysigrwydd i sicrhau cynrychiolwyr. Cafwyd adroddiad gan **Y Trysorydd a chytunwyd** bod y swm o £5,325.47 drosglwyddwyd o'r Gogledd fel arian Medalau Gee i'w drosglwyddo i Gyngor Ysgolion Sul Cymru ar yr amod ei fod yn cael ei glustnodi i'w ddefnyddio yn unig at Fedalau Gee. Roedd yn hyfryd cael **croesawu** aelodau newydd : Y Parch Dyfrig Rees (Ysg Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg; Peredur Owen Griffiths (Hwylusydd Ffydd, Trefn a Thystiolaeth CYTUN); Y Parch Aled Davies a Mrs Nerys Siddall (Cynrychiolwyr Gogledd Cymru); a dau mewn rôl newydd - Y Parchgn Irfon Roberts ac Eirian Wyn (Cynrychiolwyr De Cymru). Nodwyd ei bod yn bwysig bod unrhyw **grwpiau lleol o Eglwysi Rhyddion** sy'n cyfarfod yn hysbysu a rhoi gwybodaeth o'u gweithgareddau i gynrychiolwyr y De neu Gogledd fel y mae'n briodol.
(Gellir **cael copi llawn o'r Cofnodon** drwy gyfrwng e bost gan Helen Jones, Ysgrifennydd CERC - **rhys.helen.jones@btinternet.com**)

**Rhag 10** Cyfrannu i'r drafodaeth ar ***Taro'r Post(BBC Cymru)***ar Addoli ar y cyd mewn ysgolion. Tydi'r mater ynglyn â'r deisebau gychwynwyd dros ddeunaw mis yn ôl yn dal heb ei ddatrys. Rhaid i ni fel Cristnogion fod ar ein gwyliadwriaeth os ydym am warchod yr etifeddiaeth hon.

**Rhag 11** Cefais y fraint o gynrychioli CERC yn **Nerbyniad ffarwel Carwyn Jones,** Prif Weinidog Cymru, a gynhaliwyd yn Y Senedd. Roedd nifer ohonom yn cynrychioli gwahanol gredoau yn bresennol oedd yn adlewyrchiad teg o'r modd y mae Llywodraeth Cymru yn dangos ei chefnogaeth i'r cymunedau ffydd; gyda'r Prif Weinidog (fel y gwelwyd uchod) yn cadeirio Fforwm Cymunedau Ffydd sy'n bodoli dan nawdd Llywodraeth Cymru.

*Blwyddyn Newydd Dda yn llawn bendithion i bawb*

Rheinallt A Thomas,, Llywydd, Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru. e bost: rheinallt@talktalk.net